




# Pecyn Cynllun Cysgodi

## Gwobrau Tir na n-Og 2025

## Categori Cynradd







## Cynnwys

**Llyfrau'r Rhestr Fer** 2

**Sbardun Sgwrs:** 3
*Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth*

**Sbardun Syniadau:** 4
*Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg*

**Adnabod Awdur**
- Angie Roberts a Dyfan Roberts 7, 8
- Sioned Wyn Roberts 9
- Gareth Evans-Jones 10

**Adnabod Darlunydd**
- Efa Dyfan 11
- Eric Heyman 12
- Lleucu Gwenllian 13

**Y Beirniaid** 14

**Sylwadau'r Beirniaid** 15


**Tudalen Nodiadau** 18

**Matrics Sgorio** 19

**Cardiau Pleidleisio** 20








## Arwana Swtan a'r Sgodyn Od


(Gwasg y Bwthyn) *Ffuglen*

**Awdur: Angie a Dyfan Roberts**
**Darlunydd: Efa Dyfan**

*Addas i ddarllenwyr 9–11 oed*

Dyma nofel fer a doniol dros ben gan awdur sy'n gwybod sut i ddiddori a phlesio plant. Mae pethau'n ddiflas iawn yng Nghaernarfon pan mae Arwana Swtan yn cyrraedd yno, yng nghanol storm fawr, i aros efo'i thaid, Taidi. Ond diolch i'r fôr-forwyn hynod honno, Swigi Dwgong, daw tro ar fyd i'r dre a'i phobol. Stori gyflym, glyfar a llawn hiwmor.

---




## Ni a Nhw (Atebol)

*Ffuglen*

**Awdur: Sioned Wyn Roberts**
**Darlunydd: Eric Heyman**

Llyfr stori-a-llun
*Addas i ddarllenwyr o dan 7 oed*

*"Ni 'dyn ni... a nhw 'dyn nhw. A s'mo ni'n gwneud dim 'da nhw."*
Ond pwy yw'r nhw brawychus sy'n codi ofn ar bawb?

Llyfr llun-a-stori doniol am dwrch daear sy'n tyllu i fyny drwy'r pridd a gwiwer goch sy'n dringo i lawr y goeden, ac yn annisgwyl, mae'r 'ni' a'r 'nhw' yn cwrdd ac yn dod yn ffrindiau.

---




## Llanddafad (Y Lolfa)

*Ffuglen*

**Awdur: Gareth Evans-Jones**
**Darlunydd: Lleucu Gwenllian**

*Addas i ddarllenwyr 9–11 oed*


Dyma 12 stori hwyliog, pob un yn canolbwyntio ar fis o'r flwyddyn, gyda digon o amrywiaeth pynciau sy'n mynd â'r plentyn drwy'r flwyddyn ym myd fferm o ddefaid yng nghwmni Bet, Enfys, Seren, Tomos Tatws a'r creaduriaid eraill.

---

***Cofiwch fod rhai o'r llyfrau ar gael yn ddigidol fel e-lyfrau hefyd. Ewch i'ch siop lyfrau, llyfrgell leol neu i'n gwefan www.gwales.com i ddod o hyd i'r teitlau uchod ac am fwy o wybodaeth.***

# Sbardun Sgwrs










## Cwestiynau a phwyntiau trafod i sbarduno trafodaeth

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Disgrifiwch y llyfr mewn tri gair.
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Ydych chi'n credu bod y teitl yn gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha fordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Ydych chi'n hoffi'r darluniadau / lluniau? Pam hynny?
- Oes gennych chi hoff lun yn y llyfr? Pam mai dyna yw eich hoff lun?
- Yn eich barn chi, beth mae'r lluniau yn ychwanegu at y stori?







## Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

***Arwana Swtan a'r Sgodyn Od***
gan Angie a Dyfan Roberts

*Beth am ...*

### Ymchwilio

Pa fath o anifeiliaid sy'n byw yn y môr? Beth am wneud gwaith ymchwil i ddysgu mwy am anifeiliaid y môr ac yna dewis anifail a chreu proffil manwl i'r anifail? Gallwch greu darlun ohono, a chynnwys labeli i ddisgrifio gwahanol nodweddion, er enghraifft: esgyll, cynffon, adenydd, a beth yw eu pwrpas.

### Dylunio

Mae'r llyfr yn cynnwys map o Gaernarfon ar ddechrau'r stori. Beth am ddylunio map eich hun ar gyfer eich pentref, tref neu ddinas, neu dychmygwch ynys neu le eich hun? Gallwch gynnwys pethau o'ch dychymyg neu o'r byd go iawn. Dyma rai syniadau i'w cynnwys: anifeiliaid, pobl, ysgrifennu, adeiladau, mynyddoedd, planhigion, creaduriaid hudolus.

### Trafod

Mae bod ar lan y môr yn wych ar gyfer lles a chreadigrwydd. Oes gennych chi hoff le yn yr awyr agored? Allwch chi ddisgrifio'ch lle arbennig i ffrind? Neu greu llun? Beth sydd yno? Coed neu ddŵr, efallai?

### Ysgrifennu

Fel dosbarth neu mewn grwpiau / parau neu'n annibynnol, beth am ysgrifennu stori fer am antur ar gwch neu long? I ble fydd eich cymeriadau yn teithio a pham? Pwy sydd yn y stori? Pa fath o gwch neu long? Oes storm ar ddod? A fyddwch chi'n cyfarfod môr-ladron ar y ffordd, neu greaduriaid y môr sy'n bodoli go iawn neu'n ddychmygol?

*Meysydd Dysgu a Phrofiad*

**Y Dyniaethau, Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Iechyd a Lles**







## Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

***Ni a Nhw***
gan Sioned Wyn Roberts

*Meysydd Dysgu a Phrofiad*

**Y Dyniaethau, Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Iechyd a Lles**

*Beth am ...*

### Ysgrifennu

Beth am ysgrifennu sgwrs fer rhwng dau berson sy'n dod o wahanol lefydd yng Nghymru sydd ag acenion gwahanol i'w gilydd?

### Perfformio

Beth am actio neu greu symudiadau i gyd-fynd â rhai o'r delweddau yn y llyfr? Meddyliwch am:

- Sut mae'r twrch daear neu'r sgwarnog yn symud
- Pa ystumiau i'w defnyddio
- Sut i adrodd y geiriau – mewn llais uchel neu sibrwd, er enghraifft

### Chwarae Gêm

Beth am chwarae gêm o ioga anifeiliaid tu allan ar ddiwrnod braf? Mae'n rhaid i bawb ddewis anifail a meddwl am y siapiau mae'r anifail yn eu gwneud. Yna, creu ystum ioga sy'n cynrychioli'r anifail.

### Ymchwilio

Beth am ddefnyddio llyfrau neu'r we i ddysgu mwy am yr anifeiliaid yn y llyfr? Beth sy'n eu gwneud nhw'n debyg neu'n wahanol i'w gilydd? Gallwch greu taflen llawn ffeithiau a gwybodaeth ddiddorol (yn dewis twrch daear, sgwarnog neu anifail arall), neu ddefnyddio cerdyn neu bapur i dynnu llun mewn arddull tebyg neu arddull gwahanol i'r darlunydd.



# Sbardun Syniadau



## Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

***Llanddafad***
gan Gareth Evans-Jones

Meysydd Dysgu a Phrofiad

**Y Dyniaethau, Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol, Mathemateg a Rhifedd**

Beth am ...

### Ymchwilio

Mewn grwpiau neu barau, beth am wneud gwaith ymchwil i ddysgu mwy am un o'r traddodiadau sydd yn y llyfr. Beth ydy hanes Ffŵl Ebrill? Beth ydy hanes addunedau blwyddyn newydd?

### Cynllunio

Ydych chi wedi gwneud mabolgampau yn yr ysgol o'r blaen, neu gymryd rhan yn eisteddfod eich ysgol neu Eisteddfod yr Urdd? Mae Heini'n hoff iawn o chwaraeon a mabolgampau, ac mae Swnan yn hoff o'r Eisteddfod. Pa un sydd well gennych chi? Neu'r ddau! Beth am gynllunio eisteddfod neu ornest chwaraeon? Os ydych chi'n dewis eisteddfod, meddyliwch am y mathau o gystadlaethau, stondinau a pherfformiadau i'w cynnwys. Ac os ydych chi'n dewis gornest chwaraeon, pa fath o gamp – fel rhedeg ras neu chwarae pêl-droed – hoffech chi ei gwneud?

### Ysgrifennu

Beth am ysgrifennu cerdd yn yr un arddull â'r un sydd ar dudalen 58?

### Dylunio

Beth am ddylunio llun cysylltu'r dotiau o un o'r anifeiliaid yn y llyfr, fel gwiwer neu lyffant, ac yna cyfnewid eich llun â ffrind i'w gwblhau? Gallwch ddefnyddio dotiau neu rifau ar gyfer y dasg hon.




# Angie Roberts










**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Bwlchgwyn ger Wrecsam. Mae yno goedwig ar gyfer antur, mynydd ar gyfer picnic, labyrinth o ogofâu ar gyfer archwilio, a llwyn mwyar duon mawr ar gyfer gwneud jam – a staenio bysedd, wyneb a dillad dydd Sul.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Amhosib dewis un! Llyfrau cyfres William gan Richmal Crompton oherwydd eu bod yn gwneud i mi chwerthin, *The Mouse and his Child* gan Russell Hoban oherwydd iddo wneud i mi grio, a *Pippi Longstocking* gan Astrid Lindgren oherwydd bod Pippi wedi gwneud i mi fod eisiau bod yn wyllt ac anarchaidd. A gwisgo sanau streipiog.

**Hoff gymeriad o lyfr plentyndod?**
Mae gen i lawer o ffefrynnau, a phob un am resymau hollol wahanol: William wrth gwrs, yn anad neb. Plant amddifad Baudelaire o *A Series of Unfortunate Events*, yn enwedig y babi. Damian o *Millions* gan Frank Cottrell Boyce, Clarice Bean gan Lauren Child, Lyra Silvertongue Philip Pullman, Skellig o nofel David Almond, y tŷ yn *The House with Chicken Legs* gan Sophie Anderson – ac wrth gwrs, Pry Bach Tew Mary Vaughan Jones.

**Hoff le?**
Ymhlith y dail a'r adar yn ein tŷ coeden.

**Hoff fwyd?**
Lobsgows. Faswn i'n gallu'i fwyta nes bod fy stumog i'n brifo.


**Hoff ffilm?**
Sawl un, gan gynnwys *Hunt for the Wilderpeople*, *My Neighbour Totoro*, *Bridge to Tarabitha*, *Y Dyn Nath Ddwyn y 'Dolig*, *Time Bandits*, *Dennis the Menace*, *Paddington 2*, *Edward Scissorhands*, *Son of Rambow* ...

**Superpower o ddewis?**
Gall yr octopws brych glas oleuo yn y tywyllwch. Byddai hynny'n uwch-bŵer handi. Fasech chi byth yn gorfod brifo bysedd eich traed wrth grwydro drwy'r tŷ ganol nos eto.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Roeddwn i eisiau bod yn ofodwr unwaith, neu'n lleian. Dychmygais fod un yn darganfod bydoedd rhyngalaethol, a'r llall yn dod o hyd i fydoedd mewnol. Felly mi ddes i'n gyfarwyddwr / awdur teledu / radio / ffilm / theatr yn lle hynny, ac roedd hynny'n golygu y gallwn i greu llwyth o wahanol fydoedd i mi fy hun.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Darllenwch lawer o lyfrau. Ac yna daliwch ati i ddarllen llawer mwy.

# Dyfan Roberts







**Dwedwch ychydig wrthym amdanoch chi a'ch diddordebau?**
Un o ardal Dolgellau ydw i'n wreiddiol, ac ar ôl graddio o Brifysgol Aberystwyth bûm yn byw ym Mangor am 17 mlynedd, cyn symud i Lanrug. Ry'n ni'n byw mewn hen felin lechi yn y pentref. Ar wahân i sgwennu ac actio, fy hoff ddileit yw potsian yn fy ngardd fawr wyllt a gwneud seidar o ffrwyth y coed afalau – a gweld fy wyrion o Gaernarfon yn tyfu i fyny, wrth gwrs!

Fy mhrosiect diweddaraf yw actio Papa Smyrff mewn cyfres gartŵns i S4C. Mae fy marf wen wedi dod yn handi at y gwaith hwnnw!

**Dwedwch ychydig wrthym am eich gwaith?**
Dwi wedi bod yn trin sgriptiau creadigol i'r theatr, y teledu a'r radio, ynghyd â sgwennu caneuon, ers 50 mlynedd. Fi yw cyfansoddwr geiriau'r gân gyfarwydd 'Nos Da Nawr'. Ces i'r cyfle i gyfrannu at raglenni fel *Pupur a Halen* a chyfres *Y Cleciwr*. Roedd Angie (fy ngwraig) a fi'n cydweithio ar sgriptiau fel *Anturiaethau Jini Mê* a'r *Mynydd Grug*, a sawl un o ganeuon cyfres *Migmas*. Dwi wedi sgriptio sawl drama a sioe adloniant i Radio Cymru, a ches i gyfle hefyd i sgwennu ac addasu llyfrau, gan gynnwys sawl cyfrol o farddoniaeth hwyliog i blant. Dwi wedi bod yn brysur, rhwng pob dim!


**Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?**
Roeddwn yn hapus iawn yn ddiweddar i gydweithio efo Angie fy ngwraig ar *Arwana Swtan a'r Sgodyn Od*, a rhoi blas o iaith arbennig pobl Caernarfon ar y stori. Pleser mawr oedd cael bod yn rhan o brosiect 'teuluol', gyda'n merch Efa yn cynllunio a chreu'r holl luniau doniol a difyr yn y llyfr.





# Sioned Wyn Roberts









**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Pwllheli.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Troed-yr-Allt ac yna Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Casáu hoci. Caru hanes.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
O'n i eisiau bod yn ddeintydd ar un adeg – camgymeriad!

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Y clasur – *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones. Am antur hanesyddol!

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen, ffilm, celf, awyr iach.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Glan y môr.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Y ci!

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Wnes i erioed feddwl am ysgrifennu tan i mi fynd ar gwrs yn Nhŷ Newydd, a dyna lle ges i'r chwilen yn fy mhen, a mynd amdani.


**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Dydw i ddim bob tro yn siŵr o ble maen nhw'n dod, ond mae pethau doniol ddigwyddodd pan o'n i'n blentyn yn aml yn ymddangos. Dwi'n mwynhau ysgrifennu nofelau hanes, felly mae gwneud ymchwil i'r cyfnod yn sbarduno syniadau.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Hanes, chwedlau, cymeriadau difyr.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Cer amdani. Meddylia am stori, meddylia am gymeriadau da a jest dechrau ysgrifennu. Yn bersonol, dwi'n gweld y stori fel ffilm yn fy mhen ac yn ysgrifennu honno, wedyn yn mynd yn ôl eto ac eto i ailddrafftio a gwella'r gwaith. Does neb yn cael popeth yn iawn y tro cyntaf; rhaid i awduron profiadol fireinio eu gwaith sawl tro hefyd.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw creu cymeriadau a byd hollol newydd oedd ddim yn bodoli o'r blaen. Y peth gwaethaf yw gweithio'n galed ar bennod ac edrych arni'r diwrnod wedyn a meddwl ei bod yn sothach!






## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Mae Miss Havisham o *Great Expectations* gan Charles Dickens yn gymeriad ardderchog, er ei bod yn berson annymunol.

**Hoff le?**
Traethau Pen Llŷn.

**Hoff fwyd?**
Cinio dydd Sul.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Paddington 2* a *Deian a Loli*.

**Hoff air?**
Crinc!

**Superpower o ddewis?**
Cwestiwn da. Bod yn anweledig.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Ffilmiau o anifeiliaid bach ar Instagram.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Arlunydd ella, neu ryw swydd yn y byd ffasiwn. O'n i eisiau bod yn ddeintydd pan o'n i'n yr ysgol – ond roedd hynny'n gamgymeriad mawr!

**Top tip i ddarpar awduron?**

Meddylia am stori, meddylia am gymeriadau da a dechrau ysgrifennu. Dwi'n gweld y stori fel ffilm yn fy mhen ac yn ysgrifennu honno, yna'n mynd yn ôl i ailddrafftio a gwella'r gwaith. Amdani!

# Gareth Evans-Jones







**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr?**
Mae *Llanddafad* yn gyfrol o 12 stori fer sy'n dilyn hynt a helynt y defaid a'r holl anifeiliaid difyr – a direidus – eraill sy'n byw yn Llanddafad yn ystod blwyddyn gron.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Cefais fy ngeni yn yr hen Ysbyty Dewi Sant ym Mangor (lle mae Matalan heddiw!) a'm magu yn Nhraeth Bychan, Ynys Môn. Mi es i Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Goronwy Owen, Benllech, cyn mynd i Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch (yr ysgol uwchradd fwyaf gogleddol yng Nghymru).

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Roeddwn i wir eisiau bod yn ocsiwnîar.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
A dweud y gwir, doeddwn i ddim yn darllen llawer pan oeddwn i'n blentyn (a dwi'n difaru peidio â gwneud), ond un llyfr roeddwn i'n ei ddarllen ac yn ei fwynhau oedd fersiwn Gwyn Thomas o *Y Mabinogion*, ac roeddwn i'n ffan o gyfres Harry Potter hefyd.

**Beth yw eich diddordebau?**
Dwi'n hoffi sgwennu, mynd am dro, darllen, nofio, gwylio ffilmiau, theatr, caiacio, a mwydro!

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bod efo teulu a ffrindiau, mynd â Nowsyn, fy nghi defaid, am dro, sgwennu, darllen, a dysgu.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pan dydi pobl ddim yn trin ei gilydd yn deg.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
O bob man. Mae profiad personol yn storfa lawn o straeon. A dweud y gwir, roeddwn i wedi dychmygu *Llanddafad* pan oeddwn i'n blentyn a minnau wedi fy magu ar dyddyn defaid; ro'n i'n dychmygu bob math o straeon a chymeriadau i'r defaid i gyd – ac mae rhai ohonyn nhw bellach yn y gyfrol ei hun!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Ewch amdani! Sgwennwch, darllenwch, a mwynhewch. Mae'r dychymyg yn anrheg mor werthfawr inni gyd.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau ydi gallu byw efo cymeriadau am gyfnodau estynedig, fel petaen nhw'n ffrindiau newydd neu'n aelodau o'r teulu. Felly hefyd, dwi wrth fy modd yn cynnal gweithdai sgwennu mewn ysgolion, clybiau ieuenctid, canolfannau a gwyliau. Mae gweld pobl yn rhoi gofod i'w creadigrwydd ac yn creu rhywbeth yn brofiad tu hwnt i eiriau.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Cwestiwn anodd! Ga i ddau? O ran llyfrau Cymraeg: Gwydion (o'r Mabinogion) a Wil Cwac Cwac.

**Hoff le?**
Adra! A Mynydd Bodafon, Ynys Môn!

**Hoff fwyd?**
Bwyd Eidalaidd. Hoff jocled: Toblerone – trît bob Dolig a phen-blwydd!

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
Cwestiwn anodd... Ella cyfres Lord of the Rings.

**Hoff air?**
Clwydo.

**Superpower o ddewis?**
Y gallu i teleportio, er mwyn gofalu na fydda i'n cyrraedd yn hwyr i lefydd.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Lot o bethau, ond un sy'n gwneud imi wenu'n aml iawn ydi fy nghi defaid 5 mis oed: Nowsyn Jôs.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Rydw i wrth fy modd yn dysgu myfyrwyr am Athroniaeth a Chrefydd, a chlywed eu syniadau a'u safbwyntiau yn fy swydd fel darlithydd ym Mhrifysgol Bangor. Mae gallu sgwennu ar ben hyn yn wirioneddol arbennig.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Sgwennwch, darllenwch lwythi o wahanol fathau o lyfrau, a mwynhewch!


# Efa Dyfan













**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Mewn coedwig ger Llanrug.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail, wedyn Coleg Menai a Choleg Celf Caeredin.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Ro'n i wastad â 'nhrwyn mewn llyfr pan o'n i'n blentyn ac roedd gen i obsesiwn gyda thylwyth teg a choblynnod, felly roedd llyfrau Enid Blyton yn plesio, yn enwedig *Up the Faraway Tree*, lle roedd byd hudol, newydd i'w gael ar ben y goeden. Fel oedolyn, darganfyddais lyfrau Moomin Tove Jansson, sy'n werth eu darllen, beth bynnag yw'ch oedran! Ac wrth gwrs, ni allwn wrthod yr anarchiaeth a'r hiwmor oedd gan Roald Dahl – dwi'n hoff o *George's Marvellous Medicine* yn arbennig! Mae'r llyfrau hyn i gyd wedi ffurfio fy nghariad at straeon sy'n cymysgu antur, hud a chalon.

**Beth yw eich diddordebau?**
Creu gwisgoedd ffansi, dawnsio, creu pypedau.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Clywed fy nghath Pwca yn canu grwndi.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Toriadau ariannol i'r celfyddydau.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd?**
Ro'n i wastad eisau bod yn artist o ryw fath, ond pan o'n i yng Ngholeg Menai wnes i sylwi fod fy ngwaith yn cylchu o gwmpas naratif, a bod gen i reddf dweud stori – ond yn weledol.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Dwi'n darllen y stori, ac mae'r delweddau yn dod i 'mhen fel ffilm. Er mwyn cael ysbrydoliaeth, dwi wrth fy modd yn gwylio ffilmiau, yn arbennig rhai wedi eu hanimeiddio, e.e. *Belleville Rendezvous* lle mae'r cymeriadau eithafol, rhythm y stori a churiad yr hiwmor yn dod at ei gilydd fel dawns!



**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Ein cysylltiad â'r straeon yn y tirwedd a newid y tymhorau. Darganfod hud a hiwmor mewn bywyd bob dydd.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
Trio cymaint o ddeunyddiau, a dulliau gwahanol o greu celf ag sy'n bosib – bydd pob un yn dylanwadu ar y llall i'ch helpu chi i gyrraedd iaith weledol, unigryw.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Fillyjonk o lyfrau'r Moomins.

**Hoff le?**
Y Goedwig.

**Hoff fwyd?**
Ramen.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Migmas*.

**Hoff air?**
Gwas-bach-y-neidr.

**Superpower o ddewis?**
Siarad ag anifeiliaid.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Mae'n well gen i ffonio fy ffrindiau am sgwrs – dwi'n ceisio osgoi cyfryngau cymdeithasol cymaint â phosib er mwyn fy iechyd meddwl.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Ystlumod yn hedfan dros fy mhen.

**Swydd tasech chi ddim yn ddarlunydd? Swydd ddelfrydol?**
Gwrach.

**Top tip i ddarlunwyr y dyfodol?**
Trïwch greu rhywbeth sy'n gwneud i chi chwerthin!

# Eric Heyman









## Cwestiynau Cyflym

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Caerdydd.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Cinio ysgol.

**Beth yw eich diddordebau?**
Rhedeg a bod yn awyr agored.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
*Noggin the Nog.*

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Natur.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Noggin.

**Hoff le?**
Stiwdio.

**Hoff fwyd?**
Cinio rhost.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Kingdom of Heaven.*


**Superpower o ddewis?**
Symud gwrthrychau.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
LinkedIn.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy nghi.


**Swydd tasech chi ddim yn ddarlunydd? Swydd ddelfrydol?**
Hanesydd.

**Top tip i ddarlunwyr y dyfodol?**
Dal ati!



# Lleucu Gwenllian













**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Dan haul tanbaid Blaenau Ffestiniog.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn i'n hoffi dysgu, ond yn casáu gorfod siarad o flaen y dosbarth. Lot gwell gen i roi fy mhen mewn llyfr.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Artist, wedyn dylunydd ffasiwn, wedyn *interior designer*, wedyn gwyddonydd, ac wedyn artist unwaith eto.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Mae'n amhosib dewis! Roeddwn i'n caru cyfresi Harry Potter, Percy Jackson ac Inkheart, ac yn hoff iawn o *Hi yw fy Ffrind*, *Chwaer Fawr Blodeuwedd*, *Drwy'r Darlun*, *Eira Mân, Eira Mawr*...

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen, dysgu ieithoedd a dringo mynyddoedd.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Brechdan gaws ar ben mynydd.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl sy'n methu ciwio.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd?**
Dwi'n meddwl 'mod i eisiau bod yn artist erioed, ond roedd cyfnodau pan wnes i golli hyder wrth feddwl am gael gyrfa ym myd celf. Mae'n siŵr 'mod i wedi dechrau meddwl am ddarlunio yng Ngholeg Meirion Dwyfor, ac wedyn darlunio llyfrau plant yn benodol yn y brifysgol.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Nunlle'n benodol, ond pob man hefyd. Mae talu sylw i eiliadau bach, di-nod bywyd bob dydd yn ffordd wych o gael syniadau.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Straeon am deulu a chyfeillgarwch, natur, hud a lledrith, a chwedloniaeth.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
Mae hyn 'chydig bach yn od, ond dwi'n meddwl ei fod yn rili bwysig trio gwneud rhyw fath o ymarfer corff. Dydi plygu dros ddesg am oriau bob dydd ddim yn dda i'ch asgwrn cefn a buan iawn mae'n dechrau brifo.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn ddarlunydd?**
Y peth gorau ydi gallu ymgolli mewn gwahanol fyd am oriau bob dydd, a chael y pleser o fod yn un o'r bobl gyntaf i ddarllen gwaith awdur.

Gall fod yn yrfa reit unig, a gall hyn fod yn anodd weithiau, ond ar adegau eraill mae'r llonyddwch hwn yn fendith.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
Alla i ddim dewis!!

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Luna Lovegood.

**Hoff le?**
Copa Moelwyn Mawr.

**Hoff fwyd?**
Caws ar dost.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Nausicaä of the Valley of the Wind.*

**Hoff air?**
Kokoška ('iâr' yn iaith Macedonia).

**Superpower o ddewis?**
Gallu stopio amser (a chael mwy o amser i ddarllen a darlunio).


**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Ddim un...

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy nghŵn, Celt a Tufi – maen nhw mor wirion!

**Swydd tasech chi ddim yn ddarlunydd? Swydd ddelfrydol?**
Dim syniad! Rhywbeth fyddai'n golygu treulio lot o amser yn crwydro mynyddoedd, ella.

**Top tip i ddarlunwyr y dyfodol?**
Peidiwch â gadael i neb ddinistrio eich hunanhyder.











**Sioned Dafydd**
*Cadeirydd y Panel*

Mae gen i atgofion melys o wrando ar straeon yn cael eu darllen i fi pan o'n i'n blentyn. Yn ysgol Felin-fach ac yna Ysgol Aberaeron, doedd dim yn well na chael treulio gwers yn llyfrgell yr ysgol, a'r ffefrynnau yr adeg honno oedd *Cysgod y Cryman* gan Islwyn Ffowc Elis a'r *Wisg Sidan* gan Elena Puw Morgan.

Fel mam i Lewys a Cadi, sydd bellach yn eu harddegau, dwi wedi mwynhau rhannu llyfrau gyda nhw, hyd yn oed pan oedd rhaid darllen *Cacen Sali Mali* am y canfed tro! Dwi hefyd wedi cael fy nghyflwyno i awduron ganddyn nhw, ac mae nofelau Manon Steffan Ros yn plesio pawb yn y teulu.

Dwi wrth fy modd pan mae fy hoff awduron yn cyhoeddi llyfr newydd, ond dwi hefyd yn cael blas mawr ar ail droi dalennau llyfr cyfarwydd, llyfrau sydd fel hen ffrindiau rydych chi'n cadw mewn cysylltiad â nhw. Dwi'n grediniol bod ymgolli mewn llyfr da yn un o bleserau mwyaf bywyd.



**Rhys Dilwyn Jenkins**
*Adolygydd llyfrau ac aelod o glwb darllen*

Roeddwn i'n mwynhau darllen yn arw pan oeddwn i'n iau. Wedyn roedd prysurdeb fy mywyd gwaith yn golygu nad oeddwn i'n gadael llawer o amser i ddarllen, ond fe wnaeth cyfnodau cynnar y pandemig ailgynnau'r sbarc hwnnw. Oherwydd hynny, creais gyfrif Instagram lle dwi'n ysgrifennu adolygiadau dwyieithog o lyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae hi mor hyfryd cael rhannu fy hoff lyfrau â phobl.

Ymunais â chlwb Llyfrau Lliwgar yng Nghaerdydd yn ddiweddar, lle rydyn ni'n trafod llyfrau a ysgrifennwyd gan amrywiol awduron, ac mae themâu allweddol y storïau hyn yn canolbwyntio ar faterion LHDTC+. Mae'n brofiad hyfryd cael trafod y storïau hyn yn agored ac yn onest gyda grŵp mor gyfeillgar, ac mae'n wych cael darllen llyfr na faswn i'n bersonol wedi ei ddewis fel arall.

Mae'n fraint cael fy ngwahodd i fod ar banel beirniaid Gwobrau Tir na n-Og eleni, a dwi'n edrych ymlaen yn arw at ddarllen yr holl lyfrau a gweld beth sydd gan awduron Cymru i'w gynnig.



**Lisa Markham**
*Rheolwr Llyfrgell*

Dwi wastad wedi caru llyfrau, ac yn gwirioni ar guddio mewn byd dychmygol a chyffrous. Teimlaf fod fy swydd fel rheolwr llyfrgell Tywyn ers 25 mlynedd wedi chwarae rhan fawr yn rhoi'r ymdeimlad anhygoel o fodlonrwydd i mi.

Fel ymbarél amryliw, mae'r llyfrgell yn rhoi pob math o brofiadau i mi, ac mae'n miniogi fy awch i fwynhau bywyd. Mae hefyd yn gyfle i roi help llaw i gyflawni breuddwydion pobl eraill o bob oed, a'r cyfle hwn drwy lyfrau sy'n rhoi gwir hapusrwydd imi. Mae llyfrau yn ein galluogi i weld a dysgu llawer mwy am fywyd; mae fel edrych drwy berisgop llong danfor. Boddhad yw croesawu plant y fro yno a cheisio eu cael i fwynhau byd y llyfr.

Yn ogystal, mae darllen wedi fy ysbrydoli i deithio'r byd gyda'm plant ac i ledaenu eu gorwelion. Collais fy mam yn ifanc, ond roedd hi'n ysbrydoliaeth i mi fwynhau diwylliant – cerddoriaeth, llenyddiaeth a hanes. Fe wnaeth hi fy annog i gael y gorau allan o bob dydd, a chofio mwynhau pob eiliad ohono!



**Lleucu Non**
*Myfyriwr gradd MPhil mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Darllen yw un o'm prif ddiddordebau erioed, a'r diddordeb hwn a enynnodd fy nghariad at greu ac ysgrifennu fy straeon fy hun. Fy hoff lyfr pan o'n i'n dair oed oedd *Strempan* o gyfres Rwdlan gan Angharad Tomos ac yn sicr, cyfres Rwdlan a byd Gwlad y Rwla oedd fy ffefrynnau am sawl rheswm. Ymysg y cewri llenyddol o'm plentyndod mae Mary Vaughan Jones, Angharad Tomos, Bethan Gwanas, Jacqueline Wilson, Roald Dahl a Philip Pullman. Dwi'n hoff iawn o wahanol *genres* – o ffantasi i ffuglen wyddonol a rhamant, a dwi'n arbennig o hoff o lyfrau sy'n herio ein ffordd o feddwl!

Pan nad ydw i'n darllen neu'n ysgrifennu, dwi'n mwynhau gwrando ar gerddoriaeth neu fynd i'r sinema a'r theatr. Diddordeb arall sydd gennyf yw gweu, sydd wedi bod yn fodd o ymlacio a therapi i mi, a dwi'n mwynhau gweu pob math o bethau!


Mae'n fraint a hanner cael bod yn rhan o'r panel beirniadu y flwyddyn hon, a dwi'n edrych ymlaen yn arw at ddarllen y llyfrau i gyd.

# Sylwadau’r Beirniaid



Llyfr doniol a chreadigol gyda stori anturus a chymeriadau lliwgar.

Am antur! Fe allech gredu eich bod yn darllen hen chwedl forwrol, ond mae’r stori hon yn fodern a chyfoes gyda chymeriadau lliwgar a digwyddiadau rhyfeddol.





Chwa o awyr iach yn gymysg gyda gwynt pysgod!

Yn llawn hiwmor a dychymyg, roeddwn i’n gallu gweld a chlywed yr holl bethau yn fy meddwl. Wedi gorffen y nofel yn sydyn, roeddwn i’n dal i chwerthin gan feddwl am rai o’r cymeriadau neu’r ddeialog.

# Sylwadau'r Beirniaid











Stori ddifyr ac ysgafn, waeth o ba gyfeiriad rydych chi'n ei ddarllen.

Bydd plant bach Cymru wrth eu bodd gyda'r lluniau hudolus wrth ddilyn hynt a helynt y twrch a'r wiwer.




Mae hwn o glasur o lyfr ac mae'n cymharu gyda llyfrau tebyg mewn ieithoedd eraill. Mae sawl haen i'r stori, fel sydd i'r pridd a'r coed lle mae'r creaduriaid bach yn byw.

Stori sydyn ac annwyl, llawn hwyl a darluniau hyfryd am ffrindiau annisgwyl, gan gofleidio'r ffaith nad yw pawb o'r un cefndir nac yr un fath â'i gilydd.


Stori dda iawn gyda chymeriadau a lluniau diddorol.

Pwy fyddai'n meddwl fod defaid yn byw y fath fywydau diddorol? Dyma straeon llawn hiwmor a fydd yn sicr yn boblogaidd iawn gyda phlant bach Cymru, boed nhw'n byw yn y wlad neu yn y ddinas.





Os oes mwy o ddefaid na phobl yn Nghymru, yna mae'n hen bryd i ni ddechrau dod i'w hadnabod. Mae'r defaid yn y llyfr hwn yn debyg iawn i ni mewn sawl ffordd!

Casgliad o straeon byrion bendigedig, doniol a chynnil. Hwyl yw'r dewis o ddarllen un stori bob mis, neu ddarllen y cyfan mewn un darlleniad. Rydw i wedi dod i adnabod Bet a gweddill yr anifeiliaid yn dda mewn cyn lleied o eiriau. Camp!


# Tudalen Nodiadau



**Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi eu hysgrifennu am y llyfrau.**
*Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.*




☆☆☆☆☆





☆☆☆☆☆






☆☆☆☆☆

# Matrics Sgorio






Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.

| **Llyfr** | |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| **Clawr / Broliant**<br>Ydych chi'n hoffi'r clawr?<br>Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr?<br>Ydi'r clawr yn eich denu? | **/5** | | | |
| **Diwyg / Edrychiad**<br>Ydych chi'n hoffi'r darluniau yn y llyfr?<br>Ydi'r darluniau yn ychwanegu at y stori?<br>Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol.<br>Ydych chi'n hoffi ffont y geiriau? Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol. | **/5** | | | |
| **Arddull / Iaith**<br>Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau.<br>Wnaethoch chi ddysgu unrhyw eiriau newydd wrth ddarllen y llyfr?<br>Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?<br>Oeddech chi'n deall yr iaith?<br>Oedd yr iaith yn ddiddorol? | **/5** | | | |
| **Cynnal diddordeb**<br>Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?<br>Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth<br>Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd?<br>Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof?<br>Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol? | **/5** | | | |
| **Cymeriadau**<br>Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr?<br>Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol / credadwy?<br>Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?<br>Oedd y cymeriadau yn apelio atoch?<br>Oeddech chi'n gallu uniaethu â'r cymeriadau? | **/5** | | | |
| **Cyfanswm** | **/25** | | | |

# Cardiau Pleidleisio









Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2025, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch **X** yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

**Peidiwch â cholli eich cyfle i fod yn feirniaid answyddogol trwy bleidleisio yng nghategori Barn y Darllenwyr: tlws arbennig sy'n cael ei ddyfarnu gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cysgodi Tir na n-Og.**

Dilynwch y ddolen yma i bleidleisio: https://www.surveymonkey.com/r/N25QC6Z

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Arwana Swtan a'r Sgodyn Od** | ☐ |
| **Ni a Nhw** | ☐ |
| **Llanddafad** | ☐ |

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Arwana Swtan a'r Sgodyn Od** | ☐ |
| **Ni a Nhw** | ☐ |
| **Llanddafad** | ☐ |

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Arwana Swtan a'r Sgodyn Od** | ☐ |
| **Ni a Nhw** | ☐ |
| **Llanddafad** | ☐ |

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Arwana Swtan a'r Sgodyn Od** | ☐ |
| **Ni a Nhw** | ☐ |
| **Llanddafad** | ☐ |

2025

Beth am rannu eich
profiad cysgodi ar y
cyfryngau cymdeithasol?

Cofiwch dagio ni:
**@LlyfrDaFabBooks**
a defnyddiwch
yr hashnodau:
**#CaruDarllen**
**#TNNO2025**
**#CysgodiTNNO2025**

Tir na n-Og
GWOBRAU • AWARDS

#CaruDarllen

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES